# SL(6)409 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") a Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"). Mae'r diwygiadau'n estyn yr esemptiad rhag talu ffioedd penodol sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 a Rheoliadau 2019. Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Diben y rheoliadau hyn yw estyn yr esemptiad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio sy'n gysylltiedig â deunyddiau a reoleiddir sy'n cael eu symud o Gymru i fusnes neu unigolyn preifat yng Ngogledd Iwerddon. Gelwir hyn yn Gynllun Cymorth Symud.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2018 drwy ddarparu bod yr esemptiad yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019 drwy ddarparu bod yr esemptiad yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025.

Roedd rheoliad 3(5D) o Reoliadau 2019 yn darparu'n anghywir y byddai'r esemptiad yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Mae rheoliad 3 bellach yn estyn yr esemptiad hwn.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau hyn oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 2 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn.**

Roedd Rheoliad 3 o Reoliadau 2019 yn darparu esemptiad, o dan amgylchiadau penodol, rhag talu ffioedd mewn perthynas â cheisiadau i'r Comisiwn Coedwigaeth am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio) i Ogledd Iwerddon ar gyfer llwythi sy'n cynnwys

pren, cynhyrchion pren, rhisgl wedi'i wahanu neu beiriannau coedwigaeth sydd wedi cael eu defnyddio. Daeth yr esemptiad hwn i ben yn anghywir ar 31 Rhagfyr 2022.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn estyn yr esemptiad hyd at 30 Mehefin 2025. Felly, mae cyfnod ôl-weithredol rhwng 31 Rhagfyr 2022 a'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, sef 30 Rhagfyr 2023.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu'r wybodaeth a ganlyn ar dudalen 2, o dan 'Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad':

> *Cafodd Rheoliad 3(5D) o Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 ei estyn yn unol â ffioedd iechyd planhigion eraill yng Nghymru ac yn y llywodraethau eraill, ond daeth i ben yn anghywir ar 31 Rhagfyr 2022.*
>
> *Mae Rheoliad 3 bellach yn estyn yr esemptiad hwn tan 30 Mehefin 2025. Mae cyfnod ôl-weithredol rhwng 31 Rhagfyr 2022 a 30 Rhagfyr 2023 pan ddaw'r offeryn hwn i rym. Ni chafodd unrhyw ffioedd eu cymhwyso i allforion a reoleiddir o dan reoliad 3(5C) yn 2023 ac, felly, ni roddwyd ac ni roddir neb o dan anfantais oherwydd y ddarpariaeth ôl-weithredol.*

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn egluro goblygiadau ymarferol y ddarpariaeth ôl-weithredol, nodir nad yw'n ymddangos bod y darpariaethau galluogi a ddyfynnir yn rhoi awdurdod penodol i'r Rheoliadau gael effaith ôl-weithredol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Dechreuodd rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 beidio â chael effaith ar 31 Rhagfyr 2022, yn rhinwedd rheoliad 3(5D).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru sut y mae'n ystyried bod newid y dyddiad yn rheoliad 3(5D) yn adfer rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'n ymddangos bod anghysondebau rhwng y Nodyn Esboniadol ac effaith y diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi'r canlynol:

*Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 drwy ddarparu mai 30 Mehefin 2025 yw'r dyddiad perthnasol i ffioedd ddod yn daladwy o dan reoliad 5A(4A).*
*Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 drwy ddarparu mai 30 Mehefin 2025 yw'r dyddiad perthnasol i ffioedd ddod yn daladwy o dan reoliad 3(5C).*

Mae rheoliad 5A(4A) o Reoliadau 2018 a rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 yn darparu ar gyfer esemptiad rhag talu ffioedd, nid yw'r ffioedd yn daladwy o dan y paragraffau penodol hyn. Unwaith y daw'r ffioedd yn daladwy, bydd y paragraffau hyn yn peidio â chael effaith.

At hynny, effaith y diwygiadau yw bod rheoliad 5A(4A) o Reoliadau 2018 a rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 30 Mehefin 2025, felly bydd y ffioedd yn dod yn daladwy ar 1 Gorffennaf 2025.

**4. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad, fodd bynnag mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, ar dudalen 5:

*Nid yw'r diwygiadau a gyflwynir gan yr offeryn hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau polisi.*

ac

*Roedd adborth o waith ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid, a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU, yn gefnogi yn gryf yr estyniad arfaethedig, o ystyried y manteision y byddai'n eu cynnig ar gyfer masnach.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod effaith ôl-weithredol y Rheoliadau hyn yn gyfreithlon. Ni chafodd unrhyw ffioedd eu cymhwyso yn ystod y cyfnod ac ni roddwyd neb o dan anfantais yn sgil yr ôl-weithrediad. Mae'r darpariaethau yn dileu atebolrwydd ac yn rhoi budd fel y gallant fod yn ôl-weithredol heb dramgwyddo yn erbyn egwyddorion rheolaeth y gyfraith.

Pwynt Craffu Technegol 2: Nid yw rheoliad 3(5C) erioed wedi cael ei ddirymu, ond nid yw wedi cael unrhyw effaith gyfreithiol (hyd nes y Rheoliadau hyn) ers 1 Ionawr 2023. Mae rheoliad 3(5D) fel y'i diwygiwyd bellach ac sy'n sefyll ar wahân i reoliad 3(5C) yn adfywio rheoliad 3(5C) o Reoliadau 2019 drwy ddarparu ar gyfer parhad effaith rheoliad 3(5C) yn ystod y cyfnod yn ôl-weithredol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Mae eglurder a chysondeb yn y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn ddymunol. Fodd bynnag, nid yw'r Nodiadau Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau ac mae'r Rheoliadau yn gywir.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.